# Cyfraith cystadleuaeth: gwybodaeth ymarferol i gyfrifyddion

CMA
Competition & Markets Authority

**Mae cyfrifyddion yn helpu busnesau a'u perchnogion i ddiogelu elw ac asedau. Gall gwneud busnesau yn ymwybodol o gyfraith cystadleuaeth a'r risgiau cysylltiedig fod yn un ffordd o wneud hyn.**

## Beth yw cyfraith cystadleuaeth a pham y gallai cleientiaid fod dan risg?

- Mae cystadleuaeth yn annog busnesau i wella ac arloesi, er lles eu cwsmeriaid. Mae'r gyfraith yn sicrhau bod busnesau'n cystadlu'n gyfartal ac wedi eu diogelu rhag eraill yn gweithredu'n annheg, er enghraifft trwy osod prisiau neu dwyllo mewn cais. Gall torri'r gyfraith arwain at ddirwyon sylweddol.
- Dengys ymchwil gan y CMA ddiffyg gwybodaeth arwyddocaol ymysg busnesau, ar oblygiadau cyfraith cystadleuaeth. Dywedodd 77% nad oeddynt yn deall cyfraith cystadleuaeth yn dda iawn.
- Fel cyfrifydd a chynghorydd busnes yr ymddiriedir ynddo, efallai y byddwch yn gweld eich bod mewn sefyllfa i ddod â chyfraith cystadleuaeth i sylw cleient a'i annog i osgoi'r risgiau o'i dorri.

## Beth allaf i chwilio amdano?

- A yw'ch cleient yn cydnabod beth yw ymddygiad gwrth gystadleuol? Os felly, i ba raddau mae'n ystyried hyn i fod yn fater difrifol?
- A yw'ch cleient yn gwybod beth yw'r cosbau posibl ar gyfer torri cyfraith cystadleuaeth?
- A oes ganddynt systemau ar waith i ddelio gyda risgiau cyfraith cystadleuaeth, sy'n briodol i'w maint a natur?

## Beth all cyfrifyddion ei wneud?

- Byddwch yn ymwybodol o'r risgiau cyfraith cystadleuaeth cyffredin a'r arwyddion rhybudd sy'n arwydd o'r posibiliad y torrwyd cyfraith cystadleuaeth, a phasio hyn ymlaen at gleientiaid, fel fo'n briodol. Bydd Cyngor y CMA ar gyfer Cyfarwyddwyr Cwmnïau a Risg cyfraith Cystadleuaeth: canllaw cryno yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn.
- Os yw busnes yn poeni bod perygl y gallai dorri'r gyfraith, anogwch nhw i geisio cyngor cyfreithiol priodol.
- Byddwch yn ymwybodol o raglen trugaredd y CMA a, ble fo'n briodol, pasio hyn ymlaen i gleientiaid.

Gall cyfrifyddion ychwanegu gwerth trwy helpu cleientiaid i ddeall risgiau cyfraith cystadleuaeth.



## Beth yw goblygiadau torri'r gyfraith?

Gall busnesau wynebu dirwy o hyd at 10% o'u trosiant byd eang a gellir datgymhwyso eu cyfarwyddwyr am hyd at 15 mlynedd.

Gall unigolion fynd i'r carchar am hyd at 5 mlynedd mewn rhai achosion. Mae'r niwed i enw da yn dilyn torri cyfraith cystadleuaeth yn sylweddol a pharhaus.

Mae busnesau bach yn ogystal â rhai mawr dan risg o gamau gorfodi gan y CMA.

Am ragor o wybodaeth ar gyfraith cystadleuaeth a sut i gydymffurfio: www.gov.uk/cma
I drafod a gofyn am drugaredd: Ff: 020 3738 6833

**Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly.**